

YN ACHOS RHEOLIADAU (YMDDYGIAD) YR HEDDLU 2020

YN ACHOS CYN-GWNSTABL YR HEDDLU 19 ELINOR BROOKS-GRIFFITHS

Gwrandawriad Camymddwyn Carlam ar 9 Hydref 2026

gan y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan

Penderfyniad ar Ganlyniad

Mae cyn-Gwnstabl yr Heddlu 19 Elinor Brooks-Griffiths wedi ymddiswyddo fel swyddog yr heddlu yn fuan cyn y gwrandawriad hwn. Mae'n dilyn nad yw hi'n gwasanaethu fel swyddog heddlu mwyach. Felly, mae a wnelo'r Gwrandawriad Camymddwyn Carlam hwn, a gynhelir o dan Ran 5 o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, â chyn-gwnstabl a chyfarwyddaf fod y Rheoliadau yn cael eu diwygio i'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer cyn-swyddog.

Nid yw cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths wedi ymuno â'r gwrandawriad heddiw ond mae'r Ditectif Ringyll Michael George, sef ei Chynrychiolydd o Ffederasiwn yr Heddlu, yn ei chynrychioli.

YR HONIADAU

Ar yr adeg berthnasol, roedd y cyn-PC Brooks-Griffiths yn swyddog yr heddlu gyda Heddlu De Cymru, ond roedd oddi ar ddyletswydd pan ddigwyddodd y digwyddiad sy'n destun yr achosion hyn.

Mae'r honiadau yn erbyn y cyn-PC Brooks-Griffiths wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Rheoliad 51 a gyflwynwyd iddi. Rwyf wedi crynhoi'r honiadau fel a ganlyn:

Ar 18 Ionawr 2026, am oddeutu 01:12 o'r gloch, cafodd Heddlu Gwent alwad 999 i'r perwyl bod aelod o'r cyhoedd wedi adrodd bod gwrthdrawiad traffig ffyrdd wedi bod lle bu cerbyd modur Mercedes 180 du wedi gwrthdaro â'r atalbyst yn y llain ganol yng nghanol y ffordd. O ganlyniad i'r gwrthdrawiad traffig ffyrdd, cafodd blaen y car ei ddifrodi'n wael. Adroddodd yr

aelod o'r cyhoedd hefyd fod gyrrwr benywaidd wedi dod allan o'r cerbyd ac wedi gadael y lleoliad.

Aeth dau swyddog heddlu o Heddlu Gwent am 01:15 o'r gloch a daethant o hyd i'r cerbyd modur Mercedes du wedi'i adael. Cynhaliodd y swyddogion chwiliad o'r cerbyd a dod o hyd i ddau fag snap o bowdr gwyn, batri radio yr heddlu a thortsh heddlu du.

Wedi cynnal rhagor o ymholiadau, canfuwyd mai'r cyn-PC Brooks-Griffiths oedd ceidwad cofrestredig y cerbyd. Cafodd PC Brooks-Griffiths ei harestio wedyn ar amheuaeth o (a) Gyrru cerbyd modur wrth fod yn anghymwys wedi yfed; (b) Gyrru cerbyd modur wrth fod yn anghymwys wedi cymryd cyffuriau; (c) Methu stopio cerbyd mecanyddol pan fo hynny'n ofynnol gan gwnstabl; a (d) Meddu ar gyffur a reolir. Cyhuddwyd PC Brooks-Griffiths mewn perthynas â'r troseddau hyn.

Ymddangosodd y cyn-PC Brooks-Griffiths gerbron Llys Ynadon Casnewydd ar 17 Awst 2026 a phledio'n euog, ac fe'i cafwyd yn euog o'r cyhuddiadau canlynol:

1. Bod yn yrrwr cerbyd modur a methu stopio ar ôl damwain traffig ffyrdd, yn groes i adran 170(4) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 ac Atodlen 2 i Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988; a
2. Bod yn yrrwr cerbyd modur yn rhan o ddamwain traffig ffyrdd a methu rhoi gwybod am y ddamwain honno, yn groes i adran 170(4) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 ac Atodlen 2 i Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988; a
3. Meddu ar gyffur a reolir – Cocên Dosbarth A yn groes i adran 5(1) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

Ymddangosodd y cyn-PC Brooks-Griffiths yn yr un Llys eto yn ddiweddarach, i gael ei dedfrydu. Y ddedfryd a roddwyd i'r cyn-PC Brooks-Griffiths am y troseddau o fethu stopio a methu rhoi gwybod am wrthdrawiad traffig ffyrdd, oedd nodi 6 phwynt cosb ar ei thrwydded yrru, a chafodd ddirwy o £200. Am y drosedd o feddu ar gyffur Dosbarth A, sef cocên, cafodd ddirwy o £50. Hefyd, gorchmynnwyd i'r cyn-PC Brooks-Griffiths dalu gordal a chostau llys o £235.

Mae'r Awdurdod Priodol yn honni bod euogfarnau troseddol y cyn-PC Brooks-Griffiths yn torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas â'r canlynol:

Safon 1: Gonestrwydd ac Uniondeb - Uniondeb yn unig - sef: *"Mae swyddogion yr heddlu yn gweithredu ag uniondeb ac nid ydynt yn peryglu nac yn camddefnyddio eu swydd"*

Safon 9: Ymddygiad Annheilwng, sef bod: *"Mae Swyddogion yr Heddlu yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n difrio Gwasanaeth yr Heddlu nac yn tanseilio hyder y cyhoedd ynddo, p'un a fyddant ar ddyletswydd ai peidio. Mae Swyddogion yr Heddlu yn rhoi gwybod am unrhyw gamau a gymerir yn eu herbyn am drosedd, unrhyw amodau a osodir arnynt gan lys neu unrhyw hysbysiad cosb a gyflwynir iddynt."*

Mae'r Awdurdod Priodol yn honni bod euogfarnau'r cyn-PC Brooks-Griffiths yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, hynny yw, bod torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol, ei fod yn cyfiawnhau diswyddo.

Gan fod y cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths wedi ymddiswyddo ac mae bellach yn gyn-Swyddog, mae hyn wedi'i ddiwygio i'r perwyl bod torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol y byddai'r cyn-Swyddog yr Heddlu wedi cael ei diswyddo pe na bai wedi peidio â bod yn aelod o heddlu.

Mae'r cyn-PC Brooks-Griffiths wedi darparu ymateb ysgrifenedig i'r honiadau fel sy'n ofynnol gan Reoliad 54 o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020. Mae hi'n cyfaddef yr honiadau ac yn derbyn bod ei hymddygiad yn torri Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas ag Uniondeb ac Ymddygiad Annheilwng, fel a honnwyd. Mae'r cyn-PC Brooks-Griffiths hefyd yn derbyn bod ei hymddygiad yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

Canfyddiadau

Rwyf wedi ystyried yn llawn y dystiolaeth ger fy mron a'r cyfaddefiadau gan y cyn-PC Brooks-Griffiths. Yn ôl pwysau tebygolrwydd, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod yr honiadau yn gywir. Rwyf hefyd yn fodlon bod yr ymddygiad yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

Canlyniad

Ar ôl dyfarnu achos o gamymddwyn difrifol, mae'n rhaid i mi gymryd camau disgyblu yn erbyn y cyn-swyddog ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth wrth wneud hynny. Yr unig gam disgyblu y gallaf ei osod yw y byddai cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths wedi cael ei diswyddo pe na bai wedi peidio â bod yn aelod o heddlu.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rwyf hefyd wedi rhoi ystyriaeth lawn i Ganllawiau'r Coleg Plismona ar Ganlyniadau mewn Achosion Camymddygiad yr Heddlu a fu'n sail i'm casgliad. Rwyf wedi profi difrifoldeb yr honiadau a diben gosod cosb, y mae'n rhaid i mi eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar ganlyniad. Rwyf wedi rhoi sylw dyladwy i feiusrwydd, niwed, unrhyw ffactorau gwaethgol ac unrhyw ffactorau lliniarol fel y'u nodir yn y Canllawiau.

Wrth asesu difrifoldeb yr ymddygiad, rwy'n cydnabod po fwyaf beius yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf difrifol yw'r camymddwyn a'r mwyaf difrifol fydd y canlyniad tebygol. Rwyf yn ymwybodol o'r ffaith bod y cyn-Gwnstabl Brooks-Griffiths yn dal swydd gyfrifol, yr oedd pobl yn ymddiried ynddi a bod ei chamymddygiad yn achos difrifol o gamfanteisio ar yr ymddiriedaeth honno. Rwy'n ymwybodol bod euogfarn am y troseddau sydd gan y cyn-PC Brooks-Griffiths, sef troseddau traffig ffyrdd ac euogfarn am feddu ar gyffur Dosbarth A (Cocên) yn yr achos hwn, yn arbennig o ddifrifol. Mae'n annerbyniol i swyddogion yr heddlu, sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith, dorri'r gyfraith eu hunain. Mae'r holl ffactorau yn cynyddu euogrwydd yn sylweddol. Nid oes amheuaeth bod ymddygiad cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths wedi cael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae'r niwed a achoswyd gan weithredoedd y cyn-swyddog yn niweidio enw da yr heddlu ac yn effeithio ar wasanaeth yr heddlu a hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth yn gyffredinol. Un o'r ffactorau pwysicaf yw effaith yr achos o gamymddwyn ar statws ac enw da y proffesiwn

cyfan. Rwyf wedi fy modloni bod gweithredoedd cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths wedi niweidio'r enw da hwnnw.

Mae ffactorau gwaethgol yn ffactorau sy'n tueddu i waethgu amgylchiadau'r achos, mewn perthynas â beusrwydd y cyn-swyddog neu'r niwed a achoswyd. Rwyf wedi dyfarnu bod nifer o ffactorau gwaethgol sylweddol yn gysylltiedig â'r achos hwn. Roedd yr ymddygiad yn rhagfriadol ac yn fwiadol. Mae côcên yn gyffur Dosbarth A ac mae camddefnyddio cyffuriau yn fater sy'n achosi pryder lleol a chenedlaethol penodol i faes plismona a'r cymunedau a wasanaethir gennym. Mae'r ymddygiad yn gwyro'n sylweddol oddi wrth gyfraith gwlad gyffredinol, cyfarwyddiadau sy'n cynnwys gorchmynion, polisïau'r heddlu a chanllawiau cenedlaethol. Mae ymddygiad cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths yn warthus ac yn gwbl annerbyniol. Parhaodd ei hymddygiad ar ôl iddo sylweddoli, neu y dylai fod wedi sylweddoli, ei fod yn amhriodol.

O ran unrhyw ffactorau lliniarol sy'n gostwng lefel euogrwydd a niwed, rwyf yn derbyn bod sawl ffactor lliniarol yn yr achos hwn. Mae'r camymddwyn wedi'i gyfyngu i un bennod a chyfnod byr. Gwnaeth y cyn-PC Brooks-Griffiths gyfaddef yn agored ac yn gynnar a phledio'n euog i'r troseddau ar y cyfle cyntaf.

Ceir tystiolaeth o ddealltwriaeth ac edifeirwch gwirioneddol gan y cyn-PC Brooks-Griffiths. Yn ogystal, mae hi wedi ymddiheuro am ei gweithredoedd ac wedi dangos edifeirwch. Rwyf yn rhoi clod iddi yn hyn o beth, ac nid wyf yn amau y bydd hi'n dysgu o'r wers llym hon.

Rwyf wedi atgoffa fy hun o dri diben canlyniadau achosion camymddygiad yr heddlu, sef cynnal hyder y cyhoedd mewn plismona ac enw da gwasanaeth yr heddlu; cynnal safonau uchel o ran plismona ac atal camymddwyn; a diogelu'r cyhoedd.

Rwyf wedi ystyried y ffactorau lliniarol personol a gyflwynwyd ar ran cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths. Rwyf yn nodi ac yn cydnabod y materion personol y mae hi wedi cyfeirio atynt. Rwyf wedi rhoi cryn sylw i'r tystlythyrau cymeriad sydd wedi'u cyflwyno gan cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths sy'n ei chefnogi. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod, oherwydd natur a diben achosion disgyblu, y bydd pwys ffactorau lliniarol personol o

reidrwydd yn gyfyngedig, yn enwedig pan fydd camymddwyn difrifol wedi'i brofi, fel sydd wedi digwydd yn yr achos hwn.

O dan yr holl amgylchiadau, dim ond un canlyniad posibl y gallaf ei osod, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth wrth wneud hynny. Felly, fy mhenderfyniad ar y canlyniad yw fy mod wedi fy modloni bod y camymddwyn mor ddifrifol fel y byddai'r cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths wedi cael ei diswyddo ar unwaith pe na byddai wedi ymddiswyddo. Ni ellir cyfiawnhau unrhyw ganlyniad arall ac nid oes unrhyw ganlyniad arall yn briodol. Pe na bai'r swyddog wedi ymddiswyddo, nid wyf yn amau bod euogfarnau troseddol y cyn-swyddog yn anghydnaws â pharhau yn ei rôl fel swyddog heddlu.

Roedd y cyn-PC Brooks-Griffiths yn meddu ar gocên, sy'n gyffur dosbarth A ac yn rhan o ddiwydiant troseddol sy'n ysglyfaethu pobl agored i niwed ac yn ysgogi'r math mwyaf difrifol o drais. Mae angen cwsmeriaid ar droseddwr cyfundrefnol er mwyn gallu gweithredu'n effeithiol. Ni allech feddu ar gocên a datgysylltu eich hun â'r lefelau ofnadwy o niwed a thrais sy'n gysylltiedig â throeddu cyfundrefnol. Roedd cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths yn ymwybodol o hyn, neu dylai fod wedi bod yn ymwybodol o hyn. Mae hyn yn gwaethygu'r achos o gamymddwyn. Mae hi wedi llenwi pocedi'r rhai sy'n poenydio ein cymunedau.

Ni chaiff y math hwn o ymddygiad ei dderbyn gan Heddlu De Cymru. Mae'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn gymwys o'r eiliad y byddwch yn cerdded drwy'r drws. Ni chaniateir y math hwn o ymddygiad, boed ar ddyletswydd ai peidio. Dylai'r cyhoedd allu ymddiried yn llwyr yn swyddogion yr heddlu. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'n swyddogion arddel y safonau proffesiynol uchaf a methodd cyn-Gwnstabl yr Heddlu Brooks-Griffiths â gwneud hynny.

Mae'r mwyafrif llethol o swyddogion yr Heddlu, staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio i Heddlu De Cymru yn ymddwyn yn berffaith ac yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r nifer prin iawn ohonynt sy'n dewis mynd yn groes i'r safonau a ddisgwylir ohonynt yn tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd ym maes plismona.

Yn unol â Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, caiff Canfyddiadau a Chanlyniad y gwrandawriad hwn eu hatgyfeirio at y Coleg Plismona er mwyn i gyn-Gwnstabl yr Heddlu 19 Elinor Brooks-Griffiths gael ei rhoi ar Restr o Swyddogion a Staff Gwaharddedig yr Heddlu.